
Cenn@d

HYDREF 13 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 33

# Dathlu cyhoeddi cyfrol bwysig ar hanes Cristnogaeth yng Nghymru

Nos Iau, 30 Medi, yn festri Bethel, Aberystwyth, cafwyd cyfle i ddathlu cyhoeddi cyfrol ddiweddaraf yr Athro D. Densil Morgan, *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales*, cyfrol 2. Astudiaeth o hanes Cristnogaeth yng Nghymru rhwng 1588, blwyddyn cyhoeddi Beibl William Morgan, a 1900 yw *Theologia Cambrensis.* Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf, sy'n mapio'r cyfnod rhwng y Diwygiad Protestannaidd a'r Diwygiad Efengylaidd, yn 2018. Is-deitl y gyfrol newydd yw 'The Long Nineteenth Century: 1760 to 1900', ac mae'n ymdrin â ffigyrau pwysig fel Christmas Evans, Joseph Harris ('Gomer') a Robert Ellis ('Cynddelw') ymhlith y Bedyddwyr, Methodistiaid fel Williams Pantycelyn, Thomas Charles o'r Bala, Lewis Edwards a'i fab, Thomas Charles Edwards, yn ogystal ag Annibynwyr, Anglicaniaid a deiliaid y traddodiad Undodaidd. Mae hefyd yn crybwyll y dystiolaeth Gatholig Rufeinig yng Nghymru.






Yr Athro Frances Knight, y Parch Ddr D. Densil Morgan a'r Parch Judith Morris

Cafwyd digwyddiad tebyg yn y Tabernacl, Caerdydd, nos Fercher, 15 Medi, dan lywyddiaeth y Parch Denzil John, a'r Athro E. Wyn James yn annerch. Y Parch Judith Morris a lywyddodd y cyfarfod ym Methel, gyda'r Athro Frances Knight yn cymeradwyo'r gyfrol. Os yw E. Wyn James yn adnabyddus i ddarllenwyr *Cenn@d*, *Y Tyst*, a ffyddloniaid 'y Pethe' ymhobman, athro Hanes Cristnogaeth ym Mhrifysgol Nottingham yw Frances Knight. Mae'n un o'r prif arbenigwyr ar hanes crefydd Lloegr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn llywydd yr Ecclesiastical History Society. Mae hi'n byw yn ardal Aberaeron ac yn dysgu Cymraeg.

Cafwyd dau gyfarfod hapus a braf, gyda'r ddwy gynulleidfa'n mwynhau'r cyfle i gwrdd â chyfeillion wyneb yn wyneb gan wybod bod rheoliadau Covid yn cael eu cadw a'u parchu. Yn ogystal â diolch i'r siaradwyr ac i gyfeillion y Tabernacl a Bethel am agor eu drysau, cafodd yr awdur gyfle i gyflwyno ychydig o gefndir prosiect *Theologia Cambrensis* a chyfeirio at y nawdd ariannol haelionus a gafwyd gan Brifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant. Soniodd hefyd am bwysigrwydd deall ein gorffennol nid yn unig er mwyn gwerthfawrogi cyfoeth ein hetifeddiaeth a mawrygu ein tras, ond hefyd er mwyn cymhwyso egwyddorion yr oes aur at heriau'r byd cyfoes. Roedd yr awyrgylch yn y ddau gyfarfod yn wirioneddol gynnes.

Cyhoeddwyd *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales, Volume 2, The Long Nineteenth Century, 1760–1900*, gan Wasg Prifysgol Cymru, a'i bris yw £24.99.

**Oedfa i ddiolch a dathlu gweinidogaeth Denzil John**
Tudalen 2

**Hanes Interniaeth Mia Anderson Yng Nghapel Gomer**
Tudalen 5

**Tŷ Mawr, Wybnant**
Tudalen 7

# Oedfa i ddiolch a dathlu gweinidogaeth Denzil John



Bu Eglwys y Tabernacl, Caerdydd, yn ffodus iawn o gael gweinidogaeth ddi-dor am 228 o flynyddoedd. Y Parchedig Denzil John fu wrth y llyw am y tri degawd diwethaf, ond ym mis Ionawr 2021 penderfynodd idlio'r awenau i fwynhau ymddeoliad haeddiannol. Felly, brynhawn dydd Sadwrn, 25 Medi, daeth cynulleidfa luosog ynghyd yng nghanol ein prifddinas i ddathlu a diolch am weinidogaeth ein degfed gweinidog.

Union 30 o flynyddoedd yn ôl i'r Sadwrn hwnnw, fe sefydlwyd Denzil John yn weinidog yn y Tabernacl, Caerdydd, ar ôl gweinidogaethu yng nghapel hynafol Tonyfelin, Caerffili. Ef oedd yr ail i wneud y daith honno, dros fynydd Caerffili i'r Ais, gan i Christmas Evans gyflawni'r un siwrnai 150 o flynyddoedd ynghynt.

Roedd sawl un wedi teithio'n bellach na Chaerffili ddydd Sadwrn er mwyn dangos eu diolchgarwch i Denzil. Ar ôl cyfnod digon rhyfedd oherwydd Covid-19, braf oedd gweld cynifer yn yr eglwys unwaith eto a'r gynulleidfa'n morio canu. Roedd holl emynau'r oedfa'n gysylltiedig â'r Tabernacl a chafodd cyfansoddiadau gwreiddiol eu canu gan gôr yr eglwys a phlant yr ysgol Sul.

Llinos Metcalfe, un o blant a diacon yn yr eglwys, oedd yn gyfrifol am groesawu pawb ar ddechrau'r oedfa. Cafwyd darlleniad gan Osian Williams, un o aelodau ifancaf yr eglwys, a gweddi gan Gwen Thomas, oedd yn cynrychioli Cymanfa Bedyddwyr Dwyrain Morgannwg a Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd.

Yn ystod yr oedfa, cafwyd tri anerchiad: y Parchedig Ddr Alun Tudur ar ran Eglwysi Cymraeg Caerdydd; y Parchedig Judith Morris ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru; a Rhys ab Owen, AS, ar ran teulu'r Tabernacl. Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig Rob Nicholls, Llundain, sef un o blant yn y ffydd Denzil John.

Daeth y Parchedig Denzil John ymlaen i offrymu'r fendith a diolchodd am gefnogaeth ei deulu a'r eglwys, ond yn bennaf oll i Dduw am ei gefnogi yn ei weinidogaeth.

Mae sawl eglwys y dyddiau hyn yn cwestiynu beth yw'r dyfodol, ond diolchwn yn y Tabernacl am y seiliau cadarn y mae Denzil wedi eu gosod i ni. Dymunwn y gorau i Denzil a'i deulu yn ei ymddeoliad.

*Manon George*

# Mynydd Seion, Abergele – gwasanaeth o werthfawrogiad



Bore Sul, 19 Medi 2021, ar ddiwrnod pen-blwydd y Parchedig Ifor ap Gwilym, yn briodol iawn, daeth 70 o aelodau ei ofalaeth i Gapel Mynydd Seion i gyflwyno Gwasanaeth o Werthfawrogiad iddo fel anrheg. Ar y dydd olaf o Awst ymddeolodd Ifor o'i swydd fel gweinidog yr ofalaeth wedi naw mlynedd ar hugain o wasanaeth.

Yn eu tro roedd aelodau o Gapel Tabor, Capel Hyfrydle, Betws-yn-Rhos, a Chapel Mynydd Seion yn cyflwyno darlleniadau a gweddïau cymwys i'r amgylchiad. Mynegwyd geiriau dethol a chynnes o werthfawrogiad o waith Ifor gan Dafydd Hughes, Tabor; Rhys Davies, Hyfrydle a John Eric Hughes, Mynydd Seion.

Ar ran aelodau'r ofalaeth fe gyflwynwyd tair tysteb i Ifor; roedd Karen Beattie wedi paratoi cacen hyfryd i'w deulu ac fe gyflwynodd Anwen Jones flodau lliwgar i Mererid. Trefnwyd paned wedi'r oedfa ac roedd pawb am ddymuno ymddeoliad dedwydd i Ifor, ac iechyd i'w fwynhau.

**Ar ymddeoliad Ifor**

Dyn y GAIR, nid y geiriau;
Mor gryno ei bregethu,
Dyn diffuant a di-lol –
Ystyriol o'i aelodau.



# Xplore Goes to Church! – gwyddoniaeth yn ailddechrau'r ysgol Sul yn Wrecsam

Ar ôl clywed am y prosiect 'Xplore goes to church' mewn cyfarfod o Gristnogion Ynghyd yn Wrecsam, roeddwn yn gwybod yn syth y byddai plant Capel y Groes/ Ebeneser yn ei fwynhau. Eglwys St Marks, Parc Caia, ddatblygodd y prosiect gydag Xplore, ac roeddwn i'n teimlo y byddai'n gyfle gwych i geisio dechrau'r ysgol Sul unwaith eto ar ôl cyfnod mor hir yn gwneud sesiynau rhithiol!




Pwrpas y prosiect ydi galluogi plant i ddysgu rhywbeth am y Beibl/ Duw neu'r eglwys drwy weld a bod yn rhan o arbrofion gwyddonol. Mae Xplore!, gydag Elaine o Eglwys St Marks, wedi datblygu nifer fach o sesiynau sy'n edrych ar themâu gwahanol a rŵan yn gobeithio creu mwy gydag eglwysi eraill. Oherwydd llwyddiant y prosiect maent wedi ennill gwobr, ac mae cyllid bellach i tua deg o eglwysi yng ngogledd Cymru allu gwneud yr un peth! Mae'r cyllid yn cynnwys tri sesiwn a thrip i Xplore! ei hun yn Wrecsam.

Yn ystod ein sesiwn cyntaf yng Nghapel y Groes, fe fuon ni'n dysgu am y Drindod. I ddechrau, fe wnaeth y plant fwynhau gweld fideo oedd yn esbonio i ni beth ydi'r Drindod, mai un Duw sydd yna ond ei fod ar dair ffurf – Duw y Tad, Duw y Mab (Iesu) a Duw yr Ysbryd Glân. Yna cawsom nifer o sialensau ac arbrofion oedd yn cadarnhau beth roedden ni wedi'i ddysgu a chyflwyno syniadau newydd.

Mae'n amser pryderus i nifer o eglwysi a chapeli wrth i reolau lacio a



digwyddiadau'r capel yn cael ailddechrau unwaith eto. Lle 'dan ni'n dechrau? Mae nifer yn bryderus efallai ein bod wedi colli cysylltiad â phlant a theuluoedd y capel dros y cyfnod clo, a heb fod yn siŵr a ddôn nhw'n nôl drwy ddrysau'r capel o gwbl. Doedden ni ddim yn siŵr faint fuasai'n mynychu'r sesiwn yma chwaith, a chawsom syrpréis neis ar y diwrnod pan ddaeth chwech i'r sesiwn! Nifer saff oherwydd y cyfyngiadau ac yn berffaith ar gyfer natur y sesiwn. Mae'n rhaid dechrau yn rhywle o hyd, ac mae hon yn un enghraifft sy'n dangos fod yna le o hyd i ysgolion Sul yn ein capeli, er efallai



mewn ffurf wahanol ac er bod lot wedi newid yn ystod y misoedd diwethaf. Mae plant yn parhau i fod yn bwysig iawn yn ein heglwysi a'n capeli, ac mae'r prosiect yma wedi ein helpu ni yng Nghapel y Groes i ddechrau sesiynau wyneb yn wyneb efo'r plant eto drwy eu galluogi i ddysgu rhywbeth am Gristnogaeth mewn ffordd wahanol a hwyliog. Mae'r prosiect hefyd yn ein helpu ni i gysylltu gwyddoniaeth a ffydd, ac i fawrygu Duw yn ei greadigaeth. Rydan ni'n edrych ymlaen at ein sesiwn nesaf cyn y Nadolig!

Am fwy o wybodaeth, ewch i: https://xplorescience.co.uk/news/xplore-goes-church-first/

*Siwan Jones*
*Penycae*

# Eglwys Bresbyteraidd Cymru Y Gymdeithasfa yn y De

Braint ac anrhydedd yw cael eich croesawu i Gymdeithasfa'r De, sydd yn cael ei chynnal yn Eglwys y Crwys, ar 21 Hydref 2021. Dowch yn rhithiol i'r cyfarfodydd gan weddïo y bydd bendith Duw ar ein cyfarfyddiad, ein penderfyniadau a'n holl weithgaredd.

Bydd dau eisteddiad o'r Gymdeithasfa: yr eisteddiad cyntaf am 10 o'r gloch ac yn cynnwys Gwasanaeth Cymun, a'r ail eisteddiad am 2 o'r gloch.

Fe welwch yr wybodaeth ar sut i ymuno drwy glicio ar y ddolen: https://www.ebcpcw.cymru/cy/cyfarfod-cymderithasfar-de/

*Tony Platt (Ysgrifennydd)*
*ar ran Pwyllgor Gwaith Cymdeithasfa'r De*



# O’r byd a’r betws


## Cynhadledd Glasgow ar achub y byd, 1–12 Tachwedd

Ar 17 Medi, yn rhifyn 29 o *Cenn@d*, cafwyd erthygl flaen werthfawr gan Aled Davies am gyfle pob eglwys ac unigolyn i gynorthwyo i leihau ein ôl troed carbon. A gobeithiwn, erbyn hyn, fod eglwysi wedi plannu coed neu rywbeth tebyg yn sgil y pryder am danwydd ceir, a’n bod yn ystyried prynu ceir trydan ar y cyfle cyntaf. Faint ohonom sy’n gwybod beth yw ein ôl-troed carbon personol?

Gall rhannu cludiant neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus fod yn ymarferol, seiclo neu gerdded yn rhatach ac yn iachach. Bydd trysoryddion yr enwadau’n medru dweud faint o arian a arbedwyd wrth gynnal pwyllgorau ar Zoom. Faint o unedau carbon nas llosgwyd wrth wneud hynny? Wrth i ganran gynyddol o staff cwmnïau weithio o’u cartrefi, faint o gostau teithio arbedwyd ac, yn bwysicach, beth oedd mesur lles hyn yng nghyd-destun yr amgylchedd? Bydd yr un arbediad costau’n wir am wresogi adeiladau – ond hefyd yn ffactor bwysig i leihau’r olion carbon. Eto, rhaid gofyn pam mae gwleidyddion a diwydianwyr yn medru neidio’n or-gyflym i ddefnyddio jet ym Mhrydain pan mae trenau’n rhedeg mor hwylus.

Cafwyd adroddiad am gydweithrediad eglwysi yn ardal Treffynnon mewn rhifyn diweddar o *Cenn@d*, ac mae’n siŵr fod hanes tebyg mewn ardaloedd eraill. Mae’n brofiad sy’n atgyfnerthu ein gilydd, gan rannu doniau pregethu, addysgu, cerddorol a thystio’n lleol. Byddai’n braf clywed am hanesion tebyg gan eglwysi eraill. Mae hon yn ffordd o arbed ynni hefyd, sy’n fantais ecolegol bwysig. Llongyfarchiadau, Treffynnon, a phob cylch o eglwysi sydd yn rhannu’r un weledigaeth.

Yng nghynhadledd Glasgow ym mis Tachwedd eleni bydd y gwleidyddion yn siŵr o gynnig cynlluniau cydweithredol, ond, fel




Greta Thunberg, hawdd gofyn a fydd yna weithredu effeithiol yn fuan. Byddwn yn gyfarwydd â’r arwyddion amlwg o newid yn yr hinsawdd, a hyn yn ei dro yn effeithio ar gynhyrchu bwyd. Beth bynnag fydd y siarad am Brexit a Covid-19 a’u heffeithiau ar ein ffordd o fyw, ni fydd y ddeubeth gyda’i gilydd megis dim, oni bai fod holl wledydd byd yn cydweithio er lles pawb.

Mae llosgi tanwydd ffosil yn parhau i ddigwydd, yn arbennig mewn gwledydd fel India, China, Rwsia a’r Amerig. Dadleuant y bydd eu heconomïau yn dioddef yn enbyd oni bai eu bod yn cloddio am lo ac yn ei ddefnyddio i greu egni.

Mae gan bob gwlad ugain mlynedd i newid eu ffyrdd o greu ynni newydd a defnyddio ynni carbon, neu bydd plant yr yfory yn gorfod gwneud arbedion anoddach. Golyga hyn warchod tir gwyrdd, plannu llawer mwy o goed, peidio llosgi tanwydd carbon i deithio, atal popeth sy’n niweidio’r amgylchedd, a byw bywydau symlach.

Rhan greiddiol o’n cyfrifoldeb yn y cyfle hwn fydd addysgu ein hunain er mwyn addysgu eraill. Nawr yw’r amser i ni anfon nodyn at brifweinidog Whitehall yn pwyso am weithredu, gyda chopi at bob AS, Caerdydd a Llundain. Nawr yw’r amser i ofyn i gyfeillion a chymdogion beth maent yn bwriadu ei wneud er lles y ddynoliaeth ac i sicrhau gobaith, ac nid anobaith, i’r byd. Nawr yw’r amser i weddïo am iachawdwriaeth fyd-eang. Gweddïwn.

*Denzil John*
*Caerdydd*

# Cystadleuaeth Golff 2021

Gyda llawenydd a brwdfrydedd fe gasglodd golffwyr EBC yng Nghlwb Golff Llangollen i gystadlu a chymdeithasu unwaith eto wedi toriad o flwyddyn oherwydd cyfyngiadau COVID.

Gwahoddwyd aelodau o’r Annibynwyr i ymuno â ni am y tro cyntaf a bu cynnydd yn nifer y cystadleuwyr, yn cynnwys pedair o ferched. Cadwodd y glaw i ffwrdd er bod yna gymylau duon.

Enillwyd Cwpan *Y Goleuad* ar gyfer y gweinidogion gan y Parch Neil Kirkham, Llandudno, gyda’r Parch Richard Glyn Jones yn ail, wedi seibiant o bymtheg mlynedd oddi wrth y gêm. Dafydd Williams, Sanclêr, enillodd Gwpan y *Treasury*, gyda sgôr yn is na’i oedran, a’r Trefnydd oedd yn ail.

Oherwydd bod yna nifer sylweddol o ferched yn chwarae eleni, penderfynwyd anrhydeddu’r gorau ymysg eu grŵp. Nans Edwards, Wrecsam, oedd enillydd cyntaf yr adran newydd, gydag Eluned Francis, Caergybi, yn ail. Diolch i Geraint Jones, ein Trefnydd newydd, am ei holl waith ac edrychwn ymlaen at chwarae eto yn 2022.

*John Williams, Lerpwl*



S4C

**Sul, 17 Hydref, am 7.30yh – *Dechrau Canu Dechrau Canmol***
Mae’n dymor diolchgarwch, a’r wythnos hon bydd Nia yn Llandysul yn clywed am waith arbennig yr elusen Tir Dewi. Cawn fwynhau dehongliad Eirlys Myfanwy o eiriau ysbrydoledig Eben Fardd, ‘O fy Iesu bendigedig’.
Daw’r emynau o Gapel Moriah, Llanelli, a Chapel Seion, Dre-fach.
Mae copi o gylchlythyr mis Hydref i’w gael o ddilyn y ddolen hon:
https://spark.adobe.com/page/enhrXJs3QFjsa/

BBC radio cymru

**Sul, 17 Hydref – *Oedfa Radio Cymru*, 12.00yp**
Yng ngofal Llewelyn Moules-Jones, Bro Dwynwen, Môn.

**Sul, 17 Hydref – *Caniadaeth y Cysegr*, 7.30yb a 4.30yp**
Yr wythnos hon, yn yr olaf mewn cyfres o ddwy raglen, bydd Elen Ifan yn bwrw golwg ar hanes enwau rhai o’n hemyn-donau.

# Hanes Interniaeth Mia Anderson yng Nghapel Gomer, Abertawe, 2020–2021

**Mae Mia newydd dreulio blwyddyn fel intern yng Nghapel Gomer, Abertawe. Yma mae'n rhannu ei hatgofion, ac ymateb ei thri mentor i'w chyfraniad i waith yr eglwys.**



**Meddai Mia Anderson:**
Ers mis Medi, fel rhan o fy interniaeth, rydw i wedi bod yn rhan o nifer o bethau gwahanol megis gwasanaethau Gomer a Seion, mynd i astudiaeth ar nos Lun a nos Iau bob wythnos, clybiau ieuenctid, sesiynau mentora gydag Elen Rennolf a Hannah Smethurst, a sesiynau wythnosol gyda Derek. Dwi wedi bod wrth fy modd yn cael cymaint o amser i astudio a chanolbwyntio ar fy mherthynas gyda Duw dros y deg mis diwethaf.

Yn ystod y flwyddyn dwi wedi bod yn astudio nifer o lyfrau. Gydag Elen dwi wedi astudio tri llyfr sydd wedi edrych ar dri phwnc gwahanol:

*Cross-examinined* gan Mark Meynell, llyfr sy'n edrych ar agweddau gwahanol o'r groes a'r iawn;

*Taking God at his Word* gan Kevin DeYoung, llyfr sy'n trafod natur Gair Duw a sut mae hynny'n effeithio ar ein dealltwriaeth ohono;

*How to Pray* gan Pete Greig, llyfr sydd yn trafod beth yw gweddïo a sut i wneud hynny'n Feiblaidd.

Yn ogystal â'r darllen, fe wnaethom ni astudio'r Beibl. Fe wnaethom ni ddarllen a thrafod y Philipiaid, Galatiaid, Iago, Ruth a 2 Corinthiaid.

Gyda Hannah, fe wnes i astudio llyfr o'r enw *Stay Salt* gan Rebecca Manley Pippert. Mae'n llyfr sy'n trafod agweddau gwahanol o efengylu, agweddau pobl tuag at yr efengyl, heriau y gallem eu hwynebu a sut i rannu'r efengyl mewn diwylliant ôl-Gristnogol. Ysbrydolodd y llyfr lawer o sgyrsiau am ein profiadau personol a sut bydden ni'n addasu'r ffordd rydym ni'n efengylu.

Yn y sesiynau gyda Derek rydym ni wedi bod yn edrych ar wahanol elfennau o ddiwinyddiaeth, megis: diwinyddiaeth Feiblaidd, Cristoleg, diwinyddiaeth drindodaidd a'r Iawn dirprwyol. Dwi hefyd wedi bod yn cyflawni tasgau ysgrifenedig ar bob sesiwn.

Mae fy nealltwriaeth o Dduw a'r Beibl wedi datbygu cymaint. Mae fy mherthynas a'm dibyniaeth ar Dduw wedi tyfu ac rydw i wedi cynyddu fy ngallu ymarferol i drafod y Beibl, esbonio'r Beibl a rhannu'r Beibl.

Oherwydd yr interniaeth, dwi mewn gwell sefyllfa i fyw bywyd fel Cristion ond hefyd i wneud y gwaith y mae Duw yn fy ngalw fi i'w wneud, megis pregethu, rhannu Gair Duw a gwasanaethu'r eglwys.

**Meddai Elen Rennolf, Mentor:**
Mae'r flwyddyn ddiwethaf yng nghwmni Mia wedi bod yn fraint. Dwi wedi'i gweld hi'n tyfu mewn ffydd a dealltwriaeth o'i Harglwydd wrth i ni astudio'r Beibl gyda'n gilydd yn wythnosol. Mae hi hefyd wedi tyfu yn ei pherthynas gyda Duw a dysgu yn ddyfnach beth yw byw fel Cristion wrth i ni ddarllen llyfrau'r cwrs. Un o'r pethau mwyaf nodweddiadol i mi fel un o'i mentoriaid oedd cael gweld sut mae gair Duw a'r Ysbryd Glân wedi treiddio trwy sawl agwedd o fywyd Mia dros y cyfnod. Wrth iddi drafod ei pherthynas gyda'i theulu, neu rannu am sgyrsiau am Iesu gyda'i ffrindiau, mae'n amlwg fod Crist ar waith ym mywyd Mia. Dwi'n edrych ymlaen i barhau mewn cyfeillgarwch gyda Mia wrth i ni ddod at ddiwedd ei interniaeth, ac yn awyddus i weld sut fydd Duw yn ei defnyddio hi yn Gomer a thu hwnt yn y dyfodol.

**Meddai Hannah Smethurst, Mentor:**
Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydw i wedi cael y fraint o fentora Mia wrth iddi gyflawni'r interniaeth. Rydw i'n fentor sydd tu allan i Gomer, ac rydym ni wedi bod yn cwrdd bob yn ail wythnos. Rydym ni wedi bod yn darllen trwy'r llyfr *Stay Salt* gan Rebecca Manley Pippert yn ystod y flwyddyn. Mae'r gyfrol yn canolbwyntio ar efengylu: beth yw e a sut rydym yn ei ganfod ac yn ei wneud yn y byd heddiw. Mae wedi bod yn llyfr llawn gwirioneddau i'n hatgoffa a'n herio ni o bwysigrwydd efengylu. Cysylltodd Mia yn dda iawn gyda'r llyfr ac rydym ni wedi cael llawer i'w drafod gyda'n gilydd bob tro! Mae wedi bod yn wych gweld y ffordd mae Mia wedi cymhwyso'r hyn rydym ni wedi bod yn ei ddarllen gyda'i sefyllfaoedd, yn rhannu'i ffydd gyda'i theulu a'i ffrindiau ochr yn ochr â'r rôl efengylu o fewn yr eglwys. Er ein bod ni wedi gwneud y rhan fwyaf o'r sesiynau dros Zoom oherwydd Covid, rydw i wedi gweld datblygiad mawr yn Mia dros y flwyddyn wrth i mi ddod i'w hadnabod yn well a gweld ei hangerdd i weld pobl yn dod i nabod Iesu Grist. Rydw i'n gweddďio dros Mia yn y camau nesaf ar ôl yr interniaeth – y bydd Duw yn dangos mwy o'i ewyllys iddi hi, ac rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at ei weld e'n dod yn fyw!

**Meddai John Derek Rees ar ran Gomer, Abertawe:**

Er gwaethaf y diffyg cyfleon ymarferol oherwydd cyfyngiadau Cofid, mae Mia wedi cael budd mawr o'r astudiaethau personol, y mentora, gwersi amrywiol a'r cyfle i ganolbwyntio ar ei pherthynas â Duw. Mae'r interniaeth wedi bod yn rhan naturiol o'i datblygiad ysbrydol gyda'i heglwys, Gomer, Abertawe, lle mae wedi clywed yr efengyl, dod yn Gristion, cael ei bedyddio a dod yn aelod. Mae Elen Rennolf a Hannah Smethurst wedi bod yn rhyfeddol o ymroddedig i Mia ac i'r cynllun, ac mae gweddill yr eglwys wedi ei chefnogi hi ac wedi cael budd allan o wneud hynny. Mae Mia wedi cael ei herio a'i hannog ynglŷn â'i ffydd.

Ar ddiwedd ei chyfnod ar yr interniaeth, fe agorodd clybiau ieuenctid Seion, Waunarlwydd a Hope-Siloh, Pontarddulais, unwaith eto, a braf oedd cael gweld ei dawn yn arwain gemau a gweithgareddau a rhannu yr efengyl gyda'r bobl ifainc. Mae hefyd wedi bod yn pregethu yn Gomer ac yng Nghaersalem Newydd, Treboeth, ac wedi cael croeso mawr wrth ddangos dawn gyfathrebu ac efengylu. Rydym fel eglwys yn edrych ymlaen yn frwd at weld ei datblygiad dros y blynyddoedd nesaf a gweld y gwaith mae Duw am ei wneud trwyddi

Mae'r profiad o gynnal interniaeth wedi bod yn un buddiol i ni fel eglwys ac yn bositif iawn. Rydym yn edrych ymlaen at gael rhoi'r un profiad i eraill yn y dyfodol. Diolch yn fawr iawn i Simeon Baker am ei gymorth ar ran cynllun interniaeth Undeb Bedyddwyr Cymru.



# Yr Ysbryd Glân a'r Eglwys

**Fel ysgogiad i feddwl am natur ein heglwysi yn y cyfnod hwn o gynnull eto ac ailadeiladu, rhoddir yma'r penodau hynny o lyfr R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân* (1972), sy'n sôn am waith yr Ysbryd yn yr Eglwys. Bydd chwech ohonynt yn y gyfres.**

### Rhif 5 – Ysbryd Gras a Gweddïau

Proffwydoliaeth brydferth iawn yw honno gan Sechareia, "A thywalltaf ar dŷ Dafydd, ac ar breswylwyr Jerwsalem, ysbryd gras a gweddïau ..." (Sechareia 12:10). Yn ddigon priodol, gwelodd esbonwyr Cristnogol gyfeiriad yma at waith yr Ysbryd Glân yn yr Eglwys. Un o swyddi amlwg yr Ysbryd Glân ym mywyd cyhoeddus eglwysi ac ym mywyd preifat credinwyr yw eu cynorthwyo i weddïo.

Nid dawn neilltuol a roddwyd i rai yw dawn gweddi. Ffordd ydyw yn hytrach i bawb o blant Duw ymarfer grasusau fel ffydd, gobaith, cariad ac edifeirwch mewn deisyfiadau ac ymbiliau i Dduw.

Sut mae'r Ysbryd Glân yn ein cynorthwyo yn y gwaith hwn?

Yn gyntaf, mae'n ein sicrhau o'n rhyddid i weddïo. Derbyniasom "Ysbryd mabwysiad, trwy yr hwn yr ydym yn llefain, Abba, Dad" (Rhufeiniaid 8:15). Rhoddodd inni safle plant gerbron eu Tad. A chan ein bod trwy fabwysiad yn feibion, rhaid sicrhau ein bod yn siarad ac ymddwyn fel meibion. Fel hyn y gosododd Walter Cradoc y peth:

> Mae plentyn hoffus yn naturiol hy ar ei dad a byddai hyfdra felly'n beth anghwrtais iawn mewn dieithryn. Ond fe wnaiff plentyn eistedd ar arffed ei fam a chipio rhywbeth allan o'i llaw. Fe gewch rai i siarad am ffurfiau addoli, a deddfu sut mae gweddïo, a sefyll hanner awr yn cyffesu pechodau, a dod at Dduw felly o gam i gam. Ond mae'r sawl sy'n caru Duw â hoffter sanctaidd yn gwybod y gall neidio i arffed ei Dad pryd y mynno a syrthio i'w freichiau a gofyn am unrhyw beth heb ffalsio a gwenieithio. (*Divine Drops Distilled*, [1650], 49)

Sylwer, nid gweddïo ar Dduw am ein bod yn meddu'r *wybodaeth* ei fod yn Dad. Ond gweddïo yn rhinwedd y mabwysiad a enillodd Crist inni. Dyna sydd gan Cradoc wrth ddweud, "Dylem lafurio am ysbryd cyflawn mabolaeth. Beth yw hwnnw? Dyna yw hwnnw, na bo dim yn fy nghalon at Dduw ond cariad pur, oherwydd yn ei ymddygiad Ef tuag ataf fi nid oes dim ond cariad, a gras, a newyddion da." (*Glad Tydings,* 41)

Yn ail, chwelir y swildod a'r dieithrwch hwnnw sy'n gweddu i gaethwas o flaen teyrn, ond sy'n gwbl anaddas mewn plentyn yn cyfarch Tad: "Am hynny, frodyr, gan fod i ni ryddid (neu, hyfdra) i fyned i mewn i'r cysegr trwy waed Iesu ... nesawn â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd" (Hebreaid 10:19,22). "Am hynny, awn yn hyderus at orseddfainc y gras, fel y derbyniom drugaredd" (Hebreaid 4:16). Gwir yw nad yw Cristnogion bob amser yn teimlo'n hyderus drwy weddïo. Daw ofnau a themtasiynau – a hyd yn oed brysurdeb cyffredin – i'n maglu. Er hynny, awn yn hyderus!

Yn drydydd, y mae'r Ysbryd yn "cynorthwyo ein gwendid ni. Canys ni wyddom ni beth a weddïom, megis y dylem" (Rhufeiniaid 8:26). Er bod llawer gwendid yn gallu llesteirio ein gweddïo, y mwyaf difrifol yw fod cynnwys ein gweddïau mor amhriodol. Dymuniad dyfnaf plentyn Duw yw gweld gogoneddu ei Dad nefol. Dyna pam y mae Gweddi'r Arglwydd yn dechrau gyda "Sancteiddier dy enw. Gwneler dy ewyllys". A dyna'n union gynnwys gweddi'r Arglwydd Iesu yng Ngethsemane, "er hynny, nid fy ewyllys i, ond yr eiddot ti a wneler" (Luc 22:42). Trychineb ein gweddïau ni yw ein bod yn ymddwyn fel dieithriaid ac nid plant. Ein hunanoldeb ni sydd wrth y llyw a cheisiwn blygu Duw i'n hewyllys ni. Dim ond yr Ysbryd Glân sy'n gallu ein cynorthwyo ni i weddïo fel plant. Fel y gosododd John Wesley'r gwirionedd:

> Yr hyn a olygaf wrth dystiolaeth yr Ysbryd yw argraff fewnol ar yr enaid trwy ba un y mae Ysbryd Duw'n tystiolaethu'n uniongyrchol i'm hysbryd i fy mod yn blentyn Duw; fod Iesu Grist wedi fy ngharu a'i ddodi'i hun drosof fi, er mwyn dileu fy holl bechodau, a'm bod i, hyd yn oed myfi, wedi fy nghymodi â Duw. (*Sermons*, x)

Faint o bobl, ymhlith y rhai sy'n cwyno na allant weddïo, sy'n fyddar i dystiolaeth yr Ysbryd Glân? Faint ohonynt sydd wedi cael y syniad fod Duw'n rhyw fath o Dad Cyffredinol, heb iddo fod yn Dad personol iddynt hwy?

Yr Ysbryd Glân sy'n ein sicrhau fod inni dderbyniad gan y Tad. Efe hefyd sydd yn cadw ein golygon ar yr Arglwydd Iesu. Trwyddo Ef y mae inni ddyfodfa at y Tad. Efe yw cyfryngwr ein gweddïau, a dyna pam yr ydym yn offrymu pob gweddi "trwy Iesu Grist ein Harglwydd". Efe yw'r "Eiriolwr gyda'r Tad" (1 Ioan 2:1). Efe a gysegrodd y ffordd newydd a bywiol ar ein cyfer (Hebreaid 10:20).

Yn bedwerydd, "y mae'r Ysbryd ei hun yn erfyn trosom ni ag ocheneidiau anhraethadwy" (Rhufeiniaid 8:26). Pwy'n wir sy'n deilwng i gyfarch Duw ond Duw ei hun? Mae'n geiriau ni'n mynd yn deilchion wrth inni geisio mynegi'r hyn sydd ynom. Ond ein cysur yw fod yr Ysbryd "yn erfyn tros y saint". Ac nid rhyw gyfriniaeth niwlog yw hon y gellir ei hesbonio fel dyn yn siarad â'i ddyfnderoedd ei hun. Am y Duw hollalluog sy'n cyfarch dyn ac yn gwahodd ei gymdeithas yr ydym yn sôn. A'r Duw hwn sy'n "cynorthwyo ein gwendid ni", yn rhoi cryfder i'n gweddïau – ac yn gwrando! A hwn hefyd sy'n dwyn ei amcanion grasol i ben yn ddi-feth. "Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn" (Rhufeiniaid 8:28–39). Pwy a all beidio â gweddïo o gofio hyn? Y Duw sydd ynom yw'r Duw sydd drosom, a'r Duw sydd ynom sy'n ein gwarchod yng nghaer ei gariad rhag pob gelyn.

Beth sy'n dilyn? "Gweddïwch yn ddi-baid" (1 Thesaloniaid 5:17), "dyfalbarhau mewn gweddi" (Rhufeiniaid 12:12), "ymroi i ympryd a gweddi" (1 Corinthiaid 7:5), "gweddïo bob amser â phob rhyw weddi a deisyfiad yn yr Ysbryd" (Effesiaid 6:18), "Parhewch mewn gweddi, gan wylied ynddi gyda diolchgarwch" (Colosiaid 4:2). A chyn ddifrifoled â'r un rhybudd yw hwn gan Pedr: "Eithr diwedd pob peth a nesaodd: am hynny byddwch sobr, a gwyliadwrus i weddïau" (1 Pedr 4:7).

Yr ydym wedi talu'n ddrud yn ein heglwysi am esgeuluso'r rhybuddion hyn. Aeth ein gweddïo cyhoeddus ar y Sul yn ddieneiniad. Bu farw'r Cyfarfod Gweddi mewn llu o eglwysi. Gan ddyffeio addewidion diamwys y Beibl, gwnaeth miloedd esgus o'u gwendid a'u swildod i gael osgoi bendith "Ysbryd gras a gweddïau". Ac eto, mae'r Ysbryd wrth ein penelin: "Os chwychwi gan hynny, y rhai ydych yn ddrwg, a fedrwch roi rhoddion da i'ch plant chwi; pa faint mwy y rhydd eich Tad o'r nef yr Ysbryd Glân i'r rhai a ofynno ganddo?" (Luc 11:13).

Darlleniadau:
: Mathew 6:5–15; Rhufeiniaid 8:24–8; Hebreaid 4:14–16; Luc 11:5–13; Luc 18:1–14.

Llyfrau:
: Nid yw hanes duwioldeb Cymru wedi'i ysgrifennu eto. Mae hynny'n beth rhyfedd iawn o gofio'r swm aruthrol o ddefnyddiau sydd ar gael. Ond gyda'r dirywiad brawychus mewn disgyblaeth ddefosiynol yn ein heglwysi nid yw'n anesboniadwy.

: I bwrpas cryfhau a chyfoethogi myfyrdod a gweddi, ceir llawer cymorth yn rhai o'r hen glasuron fel *Patrwm y Gwir Gristion, Yr Ymarfer o Dduwioldeb,* a *Rheol Buchedd Sanctaidd.* Ceir gweddïau sy'n debygol o fod yn fwy at ddant y Cristion cyfoes yng nghyfrol *Pregethau*, Emrys ap Iwan (gan ddarllen hefyd pregeth (iv). Mae'r casgliadau pregethau a gyhoeddwyd yn y ganrif ddiwethaf yn dew o baragraffau cynorthwyol i ysbryd gweddi a gellid casgliad cyfoethog o ddyfyniadau o lyfrau'r ddeunawfed ganrif. O dan lwch llawer llyfrgell ceir ambell gyfrol bach fywiog ar weddi fel *Hedyn Mwstard* John Hughes, Llangadog (cyhoeddwyd Llandeilo, 1877), a chyfrolau Azariah Shadrach gyda'u teitlau gogleisiol. Mae adran Grifith Jones, Llanddowror, ar weddi yn ei *Hyfforddiad*, "Y Bedwaredd Ran", yn addysgiadol. Ac am yr athrawiaeth gw. Buchanan (250–68). Yr oedd Dr Owen Evans â'r ddawn ysgrifennu'n ddefosiynol yn gref ynddo fel yn ei *Oriau Gyda'r Iesu* yn ddwy gyfrol. Ond nid oes guro ar y Beibl ei hun i ysgogi gweddi – a gall cyfeiriadur Beiblaidd fel *Porfeydd Gwelltog* (Caerdydd 1915) o waith William Lewis fod yn gynorthwyol – heb sôn am gyfrolau T. Glyn Thomas, Wrecsam, *Ar Ddechrau'r Dydd* ac *Ar Derfyn Dydd* (Cyngor Eglwysi Cymru). Neu gellir troi at astudiaethau cyfoes o'r ddisgyblaeth ddefosiynol fel llyfr hyfryd Bonhoeffer, *Life Together* (1954), neu hyd yn oed bregethau Barth yng ngharchar Basel, *Call for God.* A gwell lawer nag ymboeni â llyfrau yw bwrw ati i weddïo. Does dim angen cwrs addysg i weddïo ar Dad!

# Tŷ Mawr, Wybnant

Pryd fuoch chi yn Nhŷ Mawr ddiwethaf? Dros y blynyddoedd, bu'n gyrchfan boblogaidd i bererinion ac ymwelwyr, nid yn unig o bob rhan o Gymru ond yn llythrennol o bedwar ban byd hefyd.

Bwriada Gwasg Carreg Gwalch gyhoeddi llyfr yn adrodd hanes un o'r tai pwysicaf i ni fel Cymry, tŷ, er gwaethaf ei bwysigrwydd fel man geni cyfieithydd y Beibl cyfan i'r Gymraeg am y tro cyntaf, na chafodd ei barchu a'i anrhydeddu'n foddhaol yn y gorffennol.

Erbyn yr 1870au doedd neb yn byw yno; roedd y lle'n dadfeilio a fawr gwell ei gyflwr na murddun. Mae'n wir i'r Arglwydd Penrhyn ei adnewyddu ar gyfer dathlu tri chanmlwyddiant y cyfieithu yn 1888 ond dim ond carreg fechan (yn Saesneg yn unig!) ar wal Tŷ Mawr oedd yno i nodi'r cysylltiad â William Morgan.

Er hynny, byddai ymwelwyr yn galw o bryd i'w gilydd heb fod unrhyw ddarpariaeth ar eu cyfer. Yna, yn 1954 trosglwyddwyd rhannau helaeth o Stad y Penrhyn i feddiant yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a diolch i ymdrechion taer pwyllgor lleol trowyd un ystafell yn amgueddfa yn 1960. Ond, er gwaethaf yr enw, ffermdy dwy ystafell a thair llofft gweddol fach oedd Tŷ Mawr, a phrin fod yno ddigon o le i ddathlu gwaddol William Morgan mewn adeilad a oedd hefyd yn gartref i deulu.

Am flynyddoedd, yr unig Feibl a arddangoswyd yno oedd un o Feiblau 1620, fersiwn ddiwygiedig John Davies a'r Esgob Richard Parry o gampwaith 1588, ynghyd ag ychydig o ddodrefn hynafol yr olwg. Diolch i ymdrechion rhai o geidwaid Tŷ Mawr a chefnogaeth yr Ymddiriedolaeth, ychwanegwyd yn raddol at y casgliad o Feiblau a llyfrau, ond cyfyngedig iawn o hyd oedd y cyfle i ddatblygu go iawn.


Rhai o griw pererindod Capel Padog a'u cyfeillion yn rhoi'r byd yn ei le, Awst 2021


Aelodau o bererindod Capel Llwyndyrys yn craffu ar y Beiblau, haf 2003

Gwnaed iawn am hynny i ddathlu pedwar canmlwyddiant y cyfieithu. Erbyn 1988 roedd hen furddun Glanrafon gerllaw wedi ei addasu'n gartref i'r ceidwad a Thŷ Mawr ei hun wedi ei weddnewid yn llwyr. Tynnwyd oddi yno addasiadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac adferwyd y tŷ i fod yn debyg i'r hyn fyddai yno yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Ond gan i William Morgan gofrestru fel myfyriwr yng Nghaergrawnt yn 1565, tua'r flwyddyn, yn ôl arbenigwyr, y torrwyd y coed ar gyfer y nenffyrch, byddai'r Esgob wedi ei eni a'i fagu mewn tŷ symlach a mwy hynafol fyth.

Bu dathlu mawr yn 1988 a Thŷ Mawr yn gyrchfan brysur i lawer am flynyddoedd wedyn. Oeddech chi ymysg yr ymwelwyr hyn? Os oes gennych atgofion neu luniau o'ch ymweliad, byddai'n braf iawn clywed gennych.

Gellir cysylltu naill ai ag erylowain@gmail.com / 01690 760335 neu â Gwasg Carreg Gwalch.

## MENTER IEUENCTID CRISTNOGOL SIR GÂR (MIC)

### Gan gynnwys Prosiect y Porth

**Gweithiwr llawn amser, ar gyfer plant, ieuenctid, teuluoedd a'r gymuned, sy'n gweithio gyda chapeli ac ysgolion Sul trwy Sir Gâr.**

Tymor: 3 blynedd. Gellir ymestyn y cyfnod am 3 blynedd arall trwy gytundeb, ac yn ddibynnol ar gyllid digonol.

Cyflog: Graddfa £24,000–£26,000, ynghyd â Chynllun Pensiwn.

Am ddisgrifiad swydd a ffurflen gais, cysylltwch â:
Peter Harries: 01558 823075;
e-bost p.harries835@btinternet.com

- Mae'r swydd yn seiliedig ar ddatgeliad DBS boddhaol a dau eirda.
- Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.
- Cewch wybodaeth am waith MIC ar ein gwefan; micsirgar.org
- Gwybodaeth am broject y Porth ar capelseion.uk/y-porth

Dyddiad cau: Hydref 31ain, 2021







# Dyma gyfarfod hyfryd iawn
## Chwyldro

**Gweddi**
Arglwydd Dduw, addolwn di yn undod dy ogoniant. Addolwn di am ddirgelwch dy hanfod, yn Drindod berffaith, yn Dad, yn Fab, yn Ysbryd Glân. Arglwydd, dyma ddirgelion rhy ddyrys i feddwl dynol a meidrol. Ac eto, yn nirgelwch dy hanfod, yr wyt yn estyn atom mewn gras i gofleidio euog fyd. Tyrd, Ysbryd Glân, fel y medrwn dy addoli heddiw. Amen.

**Emyn 42 'Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd'**

**Cyflwyniad**
Ym Marc 10 mae'r awdur yn dirwyn gweinidogaeth deithiol Iesu i ben. O'r bennod nesaf ymlaen, digwyddiadau wythnos olaf bywyd Iesu yw canolbwynt Marc. Os bwriwn ni drem yn ôl dros benodau 7–10, fe welwn pa mor gywrain yw plethiad Efengyl Marc. Dacw arweinwyr crefyddol yn dadlau am allanolion eu 'traddodiad' tra mae gwraig o Syroffenicia, na fyddai'n cael ei hystyried ymhlith pobl Dduw, yn galw ar Iesu. A thra oedd arweinwyr Jerwsalem yn brwydro yn erbyn Iesu, caiff gŵr mud a byddar ei ryddhau o hualau ei gyflwr i ganmol daioni gras Duw. Tra oedd arweinwyr y genedl yn chwilio am arwydd, caiff person dall yn Bethsaida ei olwg yn ôl cyn i lygaid ysbrydol Pedr a'r disgyblion adnabod Iesu fel Meseia Duw. Yna, dechreuodd Iesu ddysgu'r disgyblion fod dioddefaint, marwolaeth ac atgyfodiad yn ei wynebu.

Yna cawn blethiad gan Marc o ddysgeidiaeth am y groes a'r atgyfodiad oedd yn wynebu Iesu, ac yng nghysgod hyn cawn drafodaeth am beth yw ystyr mawredd, beth yw hanfod gostyngeiddrwydd a beth yw cymeriad syml 'ffydd'? Down at Dduw fel plentyn bach. Methodd y gŵr ifanc cyfoethog ollwng ei eilunod a derbyn mai rhodd Duw oedd y bywyd tragwyddol a geisiai. Ac yn awr, wedi iddo gyfeirio at ei farwolaeth am y drydedd waith, mae Marc yn cloi'r adran gyda hanes Bartimeus ddall a iachawyd gan Iesu.

**Darllen Marc 10:35–45 – Cais Iago ac Ioan**
Wrth baratoi'r myfyrdod hwn daeth y newyddion fod Boris Johnson wedi penderfynu aildrefnu'r Cabinet yn ei lywodraeth yn San Steffan. Trafodwyd ar y cyfryngau pwy oedd wedi colli statws a phwy oedd wedi cael dyrchafiad, pwy fyddai'n cael eistedd ar ei law dde ac ar ei law chwith mewn llywodraeth!

Dymuniad Iago ac Ioan, pan ddeuai teyrnasiad Duw i'w gyflawnder, oedd cael eistedd yn y seddi anrhydedd ar y dde a'r chwith i Iesu ei hun. Ymateb naturiol y disgyblion eraill oedd digio. Pwy yn y byd oedd Iago ac Ioan yn meddwl oeddynt?

Mor hyderus ydym, fel Iago ac Ioan, gyda'n datganiadau ffydd. Dy gwpan di? Wrth gwrs y medrwn ei yfed. Dy fedydd di? Wrth gwrs y medrwn ei wynebu. Dy ganlyn heb ddiffygio? Dim problem!

Hyd nes y daw gelltydd serth a thrafferthion i'n gwangalonni.

Ni ddeallwn y rhan fwyaf o'r amser beth yr ydym yn ei ddweud go iawn pan adroddwn ein cyffesion. Arwynebol yw ein dealltwriaeth. O ran yr ydym yn adnabod. Diferyn o foroedd gras yw ein profiadau dyfnaf o Dduw. Ymdrechion pitw yw'n galluoedd pennaf i geisio deall ein profiad o ymyrraeth Duw ynom. Ond parhawn i ymdrechu i ddeall gan ein bod am ddeall ein hunain, er mwyn i ni fedru cyfleu i eraill beth yw'n hadnabyddiaeth o ras ein Harglwydd Iesu Grist a chariad Duw a chymdeithas yr Ysbryd Glân.

**Nid felly ... yn hytrach**
Fe welsom oll ar y teledu gymaint o ffanffer o groeso a estynnir i arweinwyr y gwledydd ar eu hymweliadau â Phrydain – y ceir gorau, y bwydydd a'r gwinoedd gorau, y croeso cynhesaf er mwyn anrhydeddu cynrychiolwyr cenedl, neu lywodraeth, neu blaid. Dyna fyddai'r ymwelydd yn ei ddisgwyl.

I athronwyr fel Aristoteles nid oedd gostyngeiddrwydd yn rhinwedd i'w goleddu. I bwerau ac ymerodraethau'r canrifoedd, arwydd o wendid cymeriad, o ddiffyg asgwrn cefn, yw gostyngeiddrwydd. 'Gostyngeiddrwydd' meddir yw'r hyn sy'n galluogi eraill i gerdded drosom ni. 'Gostyngeiddrwydd' yw synied yn fach ohonom ein hunain a bod yn ddibris o'n doniau a'n galluoedd. 'Gostyngeiddrwydd' yn y meddylfryd hwn yw'r ffordd o feddwl sy'n caniatáu i eraill ein gormesu a'n cadw yn ein lle.

Ond 'nid felly' y mae Iesu'n cyflwyno gwerthoedd teyrnas Duw na'i ddull o weithredu. Nid statws na hunan-glod na hunanbwysigrwydd, meddai Iesu, yw gwir fesur mawredd yn ei deyrnas ef. 'Nid felly' y mae deall galwad ei deyrnas.

Dywed Iesu wrth ei ddisgyblion fod gwir fawredd yn cael ei arddangos mewn gostyngeiddrwydd gwasanaethgar. Pennau bach ymffrost gwag y byd sy'n clochdar eu statws a'u hunanbwysigrwydd. Gwir fawredd y disgybl yw nad oes angen iddo neu iddi ymffrostio na gogoneddu ei hun er mwyn datgelu mawredd eu cymeriad.

Mawredd, yn ôl Iesu, yw meddiannu agwedd wasanaethgar. Nid rhywbeth a orfodir arnom o'r tu allan mo hyn, ond agwedd meddwl y dewiswn ei wisgo'n ddyddiol. A phatrwm ein gwasanaeth, yr hwn y cawn ein galw i'w efelychu, yw Iesu ei hun, Mab y dyn, na ddaeth i'w wasanaethu ond i wasanaethu (gweler hefyd Philipiaid 2:1–11).

Pa wahaniaeth ymarferol sy'n deillio o hyn?

Onid yw'n brofiad i unrhyw un sydd wedi gweithio mewn swyddfa, neu sefydliad, neu gwmni masnachol, fod gweithio i rywun sydd am ddefnyddio pob cyfle i fychanu eraill neu i'w ddyrchafu ei hun bob munud, yn sefydliad arteithiol i weithio ynddo? Mor wahanol yw'r sefydliad neu'r adran sy'n cael ei harwain gan rywun sy'n caniatáu i'r staff a'r mudiad i gyrraedd eu potensial. Nid clwtyn llawr mo'r fath berson. Arweinydd ydyw sy'n rhyddhau ffyniant eraill drwy ysbryd o wasanaeth.

Ond daeth Iesu hefyd i fod yn 'bridwerth dros lawer' – pridwerth, sef yr hyn a delir er mwyn rhyddhau rhywun a gipiwyd gan derfysgwr, y swm a delir i ryddhau carcharor rhyfel, y taliad a wneir er mwyn prynu caethwas. Pris rhyddid ydyw.

Yn ganolog i fywyd Eglwys Iesu Grist y mae'r rhyfeddod fod Iesu wedi ymostwng a'i fod, wrth iddo ddioddef gwarth a dirmyg, yr un pryd yn 'talu' pridwerth ein rhyddhad. Dirgelwch rhyfeddaf ein ffydd, dirgelwch a fydd yn llenwi addoliad Eglwys Iesu Grist i dragwyddoldeb yw hyn: prynodd Mab y dyn 'i Dduw â'th waed rai o bob llwyth ac iaith a phobl a chenedl' (Datguddiad 5:9 ymlaen).

**Gweddi**
Gadewch i ni ddefnyddio Emyn 511 fel sail i'n gweddïau personol.

**Emyn 511 'Agorodd ddrws'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru